Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Meithrinfa Little Footsteps yn Blakedown House

**Blakedown House**
**Heol Mostyn**
**Ystad Ddiwydiannol Fferm y Pentref**
**Y Pîl**
**Pen-y-bont ar Ogwr CF33 6BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Meithrinfa Little Footsteps yn Blakedown House

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Little Footsteps yn Blakedown House |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Corinne Coulter, Stacey Barker-Platt |
| Person â chyfrifoldeb | Corinne Coulter, Stacey Barker-Platt, Amy Chard, Sarah Tolley-Smith, Jade Claypole, Victoria Dewar, Ella Tandy |
| Nifer y lleoedd | 75 |
| Ystod oedran y plant | 0-12 |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 3 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener 7am-6pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 02.08.2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 22/11/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu ac ymestyn y cyfleoedd a'r profiadau dysgu presennol er mwyn cynnig amrywiaeth i bob plentyn yn y lleoliad

A2 Gwella'r ddarpariaeth mewn perthynas â sgiliau Cymraeg yn y lleoliad

A3 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn canolbwyntio'n glir ar wella sgiliau a datblygiad y plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Y prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu llais cryf. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ar yr hyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn dewis pa weithgareddau maent am gymryd rhan ynddynt a pha adnoddau maent am chwarae â nhw. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynegi eu hunain yn dda drwy ddulliau llafar a dieiriau. Maent yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb iddynt. Er enghraifft, pan ddywedodd y plant nad oeddent wedi gorffen eu byrbryd, cawsant barhau i fwyta wrth i'r gweddill adael. Mae'r plant hŷn yn gofyn yn hyderus am bryd gwahanol amser te a chaiff eu dymuniadau eu bodloni.

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ddechrau chwarae. Maent wedi setlo'n dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdopi'n dda iawn â bod ar wahân i'w rhieni a'u gofalwyr. Caiff y nifer bach iawn o blant sydd ychydig yn ofidus eu cefnogi'n dda ac maent yn setlo maes o law. Mae gan y plant gydberthnasau cynnes a chlos â'r ymarferwyr ac maent yn mynd atynt am faldod ac i sgwrsio am ddigwyddiadau diweddar yn eu bywydau. Er enghraifft siaradodd y plant hŷn yn gyffrous â'r ymarferwyr am eu taith ddiweddar i Gastell Caerdydd.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol ac yn symud yn hyderus rhwng gweithgareddau. Mae'r plant iau yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd fel sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae rôl yn hapus wrth fynd i 'hela arth' a gwneud swynion. Mae bron pob un o'r plant yn dechrau dilyn rheolau ac yn parchu pobl eraill. Maent yn ymgyfarwyddo â theimladau ei gilydd, er enghraifft maent yn gofyn i'w gilydd a ydynt yn iawn yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant hŷn yn cefnogi ac yn helpu'r plant iau. Yn y clwb ar ôl ysgol, gwnaeth un o'r plant hŷn helpu un o'r plant iau drwy osod eitemau lliwiau o fewn cyrraedd hawdd.

Mae bron bob un o'r plant yn egnïol ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn dangos diben a chwilfrydedd wrth iddynt gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n briodol i'w cam datblygu. Er enghraifft, maent yn adeiladu tyrrau yn llwyddiannus â blociau mawr, yn archwilio gweadau mewn gweithgareddau synhwyraidd ac yn rhannu llyfrau ag ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad yn hyderus â ffrindiau ac ymarferwyr. Maent yn siarad yn hapus am eu hoff fwyd wrth eistedd wrth y bwrdd amser byrbryd, ac yn trafod ffeithiau am y corff dynol â rhyfeddod. Yn gyffredinol, mae pob plentyn yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau, er enghraifft pan fyddant yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio eu moesau, drwy ddweud 'os gwelwch chi'n dda' a 'diolch' amser byrbryd.

Mae bron pob un o'r plant yn meithrin sgiliau a gwybodaeth drwy ddilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn hyderus i wneud dewisiadau ac i ofyn am help pan fydd ei angen arnynt. Maent yn meithrin annibyniaeth a sgiliau hunangymorth yn gynyddol. Er enghraifft, mae llawer o'r plant iau yn helpu i dacluso a chânt gymorth i olchi eu dwylo cyn amser bwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn adnabod ac yn casglu eu heitemau personol eu hunain, yn defnyddio'r toiled, ac yn arllwys eu diodydd eu hunain. Cânt gymorth gan yr ymarferwyr os oes angen.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm dros hyn yw nad oedd digon o blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg a gyllidir yn rhywle arall yn bresennol ar adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb i blant unigol gael eu hadnabod.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol er mwyn helpu'r ymarferwyr i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ran sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Yn gyffredinol, maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad mewn perthynas â hylendid, iechyd a diogelwch ac yn eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn cwblhau cofnodion perthnasol mewn perthynas â damweiniau a rhoi meddyginiaeth. Maent yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac yn cofnodi ymarferion tân rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn darparu prydau a byrbrydau iach priodol i'r plant, gan gynnwys llaeth neu ddŵr i'w yfed . Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i gefnogi'r plant ag alergeddau ac anghenion deietegol.

Mae'r holl ymarferwyr yn ofalgar ac yn gefnogol iawn. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a charedig, gan greu awyrgylch cadarnhaol a hapus. Maent yn rhoi maldod i'r plant ac yn sgwrsio â nhw'n garedig am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Mae polisi rheoli ymddygiad addas ar waith, y maent yn ei ddilyn yn effeithiol. Mae'r holl ymarferwyr yn rhoi canmoliaeth am ymddygiad da ac yn defnyddio technegau cadarnhaol fel esbonio a thynnu sylw er mwyn helpu'r plant i ddysgu. Er enghraifft, wrth rannu cyfarpar mae'r ymarferwyr yn dweud, “*you’re always good at sharing*” and “*that’s really good*”.

Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion y plant, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn nodi plant y gall fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol mewn modd addas ac mae ganddynt systemau priodol ar waith i'w cefnogi.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn ymateb i'r plant ac yn eu cefnogi wrth chwarae, er enghraifft drwy gannu caneuon wrth iddynt chwarae, rhannu llyfrau, siarad â nhw, a chwarae ochr yn ochr â nhw.  Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau sylfaenol yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn hyrwyddo amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau dysgu ar draws pob oedran yn y lleoliad, gan gynnwys defnyddio'r ardal awyr agored. Mae'r lleoliad wedi dechrau cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi datblygu a chyflwyno system ar gyfer olrhain cynnydd a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth yn llwyddiannus er mai ychydig iawn o Gymraeg a ddefnyddir yn y lleoliad.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol):**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth addas o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio. Maent yn meithrin gwybodaeth briodol o'r cwricwlwm a'r modd y mae'n cefnogi dysgu a datblygiad y plant. Maent yn cynllunio mewn modd ymatebol a hyblyg ac yn ymateb yn dda i ddiddordebau'r plant. Maent yn darparu adnoddau ychwanegol i wella a chyfoethogi chwarae'r plant ac yn cynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol yn seiliedig ar y diddordebau hyn. Er enghraifft, yn dilyn diddordeb mewn chwarae rôl gwrachod, maent yn darparu eitemau fel plu, ffyn a sbarcls er mwyn annog y plant i wneud swynion. Fodd bynnag, nid oes gan yr ymarferwyr bob amser ffocws clir ar sut y gallant feithrin sgiliau a gwybodaeth y plant drwy'r gweithgareddau hyn.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd priodol sy'n cynnwys y plant yn eu hannog i gyd-chwarae. Maent yn cynllunio amrywiaeth addas o gyfleoedd sy'n galluogi'r plant i chwarae am gyfnodau estynedig o amser ac i fentro wrth chwarae, er enghraifft drwy adeiladu tyrrau sy'n dalach na nhw eu hunain a defnyddio’r ffrâm ddringo yn yr awyr agored. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi'r plant i fagu hyder wrth archwilio'u hamgylchedd.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gwneud arsylwadau defnyddiol ar yr hyn y mae'r plant wedi bod yn ei wneud, gan gynnwys yr hyn y maent yn ymddiddori ynddo wrth chwarae. Mae'r ymarferwyr yn monitro cynnydd yn erbyn targedau'r plant yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu gwasanaethau arbenigol am gynnydd y plant. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio cyfleoedd i gryfhau ac ymestyn dysgu'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn gosod esiampl dda o ran iaith ac yn cefnogi'r plant yn dda drwy eu rhyngweithio a'u cwestiynau. Maent yn cynllunio amrywiaeth werth chweil o weithgareddau sy'n helpu'r plant i ddefnyddio eu sgiliau gwneud marciau wrth chwarae, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau at y teulu a'u postio ym mlwch postio'r lleoliad.  Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i feithrin gwydnwch, annibyniaeth a hyder yn briodol, er enghraifft drwy eu hannog i fentro'n ofalus ac i herio eu hunain yn gorfforol ar gyfarpar chwarae mawr. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd addas i feithrin sgiliau mathemategol y plant, yn enwedig eu sgiliau rhif.  Mae defnyddio'r adnoddau digidol a brynwyd yn ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu sgiliau digidol a sgiliau cyfathrebu'r plant. Er enghraifft, maent yn trafod sut maent wedi symud darnau o amgylch y sgrin i greu'r llun o ddinosor.

Mae'r ymarferwyr yn helpu'r plant i feithrin ymdeimlad o ryfeddod drwy ymweld â pharciau lleol yn rheolaidd. Maent yn annog y plant i ganfod a mwynhau natur ac i edrych am y newidiadau yn y tymhorau. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o ymweliadau â'r ardal leol a mannau o ddiddordeb, fel teithiau i'r siop ac i'r llain pwmpenni. Mae'r ymweliadau hyn yn helpu'r plant i feithrin ymdeimlad o berthyn a chwilfrydedd o'u bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill.

Mae'r lleoliad yn cynnig amrywiaeth briodol o weithgareddau a dathliadau sy'n helpu'r plant i ddysgu am Gymru a'i diwylliant. Maent yn cynllunio i'r plant goginio cacennau

cri ac i wisgo gwisg draddodiadol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Maent hefyd yn arddangos lluniau o dirnodau Cymru o amgylch y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau addas i'r plant ddysgu am ddiwylliannau eraill a'u traddodiadau a'u dathliadau, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio nac yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon da wrth ryngweithio â'r plant ac nid ydynt yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant glywed caneuon a rhigymau Cymraeg. O ganlyniad, nid yw sgiliau Cymraeg y plant wedi'u datblygu'n ddigonol.

**Yr Amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn ddiogel. Mae asesiadau risg trylwyr ar waith, gan gynnwys gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd. Maent yn sicrhau y caiff yr holl wiriadau diogelwch eu cwblhau ac yn dilyn gweithdrefnau cadarn mewn perthynas ag ymwelwyr â'r lleoliad. Mae'r safle yn lân ac mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, fel diheintio byrddau a chadeiriau uchel. Maent hefyd yn gwisgo dillad diogelu priodol. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn briodol, er nad yw'r ymarferwyr bob amser yn sicrhau preifatrwydd y plant hŷn.

Mae'r safle wedi'i ailaddurno yn ddiweddar, sy'n hyrwyddo ymdeimlad naturiol, ffres a chartrefol. Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn cynnig ardal fawr i'r plant chwarae a symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth o deganau ac adnoddau diddorol ym mhob ystafell yn y lleoliad. Mae llawer o'r rhain yn adlewyrchu'r amgylchedd naturiol a gwrthrychau bywyd go iawn ac yn annog y plant i chwarae'n dda â blociau a rhannau rhydd. Caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau eu storio ar lefel isel, sy'n galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'r plant yn defnyddio dodrefn o faint o faint priodol a chyfarpar sy'n addas i'w hoedran a'u cam datblygu, gan gynnwys 'ystafell synhwyraidd' sydd wedi'i haddasu'n bwrpasol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal awyr agored ddiogel yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a chwarae, er enghraifft y gegin fwd, 'llong môr-ladron', ardal chwarae rôl gwisgo i fyny a wal ddŵr. Maent hefyd yn cynnig amrywiaeth gyfyngedig o gyfleoedd i blant hŷn ddefnyddio'r ardal awyr agored yng nghefn y safle.

Mae'r arweinwyr yn darparu ardaloedd dynodedig addas i'r plant storio eu heitemau personol ac maent yn arddangos gwaith celf y plant yn ddeniadol ar draws y lleoliad. Mae hyn yn cefnogi ymdeimlad o berthyn ac yn hyrwyddo eu hunan-barch. Mae'r arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau chwarae yn effeithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant, gan gynnwys amrywiaeth a threftadaeth Gymreig. Mae hyn yn meithrin dealltwriaeth y plant o'r byd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar lesiant y plant a'r ymarferwyr. Maent yn cydnabod pwysigrwydd y cyfnod cynnar hwn ym mywyd plentyn ac yn awyddus i roi'r dechrau gorau i bawb mewn amgylchedd cartrefol a gofalgar. Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir o ran yr hyn a ddisgwylir gan bob ymarferydd.

Maent yn sicrhau bod gan yr ymarferwyr ddisgrifiadau swydd cyfredol sy'n cynnwys gwybodaeth glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r arweinwyr yn dilyn prosesau sefydlu addas sy'n helpu'r ymarferwyr newydd i deimlo'n rhan o dîm yn gyflym. Maent yn dilyn system effeithiol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu'r ymarferwyr sy'n arwain at dargedau y cytunwyd arnynt. Mae'r arweinwyr yn sicrhau ymdeimlad cadarnhaol o waith tîm yn y lleoliad ac mae'r ymarferwyr yn cefnogi ei gilydd yn dda. Mae gan y lleoliad ddatganiad clir o ddiben sy'n rhoi darlun cywir, ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth addas o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Mae prosesau hunanwerthuso'r lleoliad yn helpu'r arweinwyr i nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wella. Mae'r rhain yn cynnwys myfyrdodau anffurfiol ar ddiwedd y dydd sy'n helpu i roi gwybod i'r ymarferwyr am newidiadau sydd angen eu gwneud yn syth.  At hynny, mae'r gwerthusiadau blynyddol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r arweinwyr i'w galluogi i ystyried gwelliannau tymor hwy. Fodd bynnag, ar rôl yr arweinwyr o ddydd i ddydd a newidiadau i'r amgylchedd, mae'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio'n bennaf, yn hytrach nag ar wella dysgu a llesiant y plant. Er bod yr arweinwyr yn gofyn am adborth gan y plant, eu rhieni a'u gofalwyr ar waith y lleoliad, nid ydynt bob amser yn cofnodi eu canfyddiadau'n briodol. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr bob amser yn adnabod meysydd i'w gwella yn ddigon effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gyda'r rhieni a'r gofalwyr ac yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd a datblygiad eu plentyn. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfathrebu hwn yn fawr, yn ogystal â'r awgrymiadau y maent yn eu cael i gefnogi eu plentyn gartref.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau a chyllid arall i ddatblygu'r lleoliad, er enghraifft i brynu adnoddau buddiol i gefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol y plant. Mae'r blociau a'r cerbydau pren a brynwyd yn ddiweddar yn cael effaith gadarnhaol o ran helpu i ennyn diddordeb y plant mewn gweithgareddau datrys problemau.

Mae'r arweinwyr a'r person â chyfrifoldeb wedi meithrin cysylltiadau cryf ag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys yr athro ymgynghorol lleol, er mwyn cefnogi a gwella dysgu a datblygiad y plant. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda thîm anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol ac asiantaethau allanol i sicrhau y caiff y plant ag anghenion dysgu ychwanegol eu cefnogi'n dda ac y caiff eu hanghenion eu diwallu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau pontio cadarn ar waith gydag ysgolion bwydo er mwyn cefnogi pob plentyn i symud ymlaen yn hyderus i gam nesaf ei addysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2023